# Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## 4ydd Hydref, 2016

**Presennol:** Heledd Jones (yn y gadair), Huw Antur, Dewi Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Ymddiheuriadau**:

1625 Estynnodd Heledd Jones groeso cynnes i bawb a derbyniodd ymddiheuriadau am absenoldeb Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones ac Alan Jones Evans.

1626 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1627 Croesawyd Iwan Roberts i'r cyfarfod, yn cynrychioli Heddlu Gogledd Cymru. Trafodwyd nifer o faterion lleol, gan gynnwys parcio anghyfreithlon yn ardal y Neuadd, er mai mater i Gyngor Gwynedd ac nid yr Heddlu ydyw hwn; gall y Cyngor Cymuned wneud cais i'r Wardeiniaid ymweld â'r pentref pan fyddant yn ardal Y Bala. Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am ychwanegu at y llinellau melyn hefyd. Mae 4 plismon yn gweithio allan o orsaf yr heddlu yn Y Bala, ac mae un arall yn cael ei recriwtio. Mae hyn yn ychwanegol at y ddau PCSO. Diolchwyd i Iwan Roberts am ei ymweliadau cyson â'r pentref ac am gyfrannu at y drafodaeth yn y Cyngor.

1628 Mynegodd Huw Antur ddatganiadau buddiant ym mater 1638iii, cais Partneriaeth Penllyn am nawdd at yr Henblas.

1629 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Medi 6ed, 2016.

1630 Materion yn codi o gyfarfod Medi:

i. Cafwyd sawl sylw o werthfawrogiad mewn ymateb i'r gwasanaeth i gofio'r milwyr ac i weddïo am heddwch. Cytunwyd i ddiolch i'r Parchedig Carwyn Siddall am ei gyfraniad gwerthfawr i'r achlysur.
ii. Derbyniwyd ymateb gan Dŵr Cymru i'r llythyr anfonwyd parthed cau ffordd Cynllwyd. Teimlai'r Cyngor fod y llythyr yn dangos anwybodaeth siomedig am leoliad Cynllwyd ac ansicrwydd am y gŵyn a wnaed.
iii. Rhoddodd y Clerc Adroddiad o Gynhadledd SLCC gan ganolbwyntio ar y newidiadau i'r drefn Cynllunio.
iv. Asesiad o fannau agored - gadawyd y mater ar y bwrdd.
v. Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Eryri – rhoddodd Dewi Jones amlinelliad o gynnwys yr Adolygiad a chafwyd trafodaeth.

1631 Enwebwyd Alwyn E Jones i'r sedd wag ar y Cyngor.

1632 Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir trwy law'r Clerc. Cafwyd trafodaeth ar adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar y problemau a achosir gan lifogydd ar yr afonydd Lliw a Dyfrdwy. Cytunwyd y byddai'n fuddiol tynnu lluniau o'r fan lle mae'r afon Lliw yn torri allan, gan fod amheuaeth nad ydyw'r Adroddiad yn nodi'r safle yn gywir. Cytunwyd hefyd i ofyn i Alun Jones (Cefnffyrdd) am ei farn am godi lefel y ffordd, gan fod y ffordd allweddol hon yn cael ei chau sawl gwaith bob blwyddyn oherwydd llifogydd.

1633 Derbyniwyd Adroddiad cynhwysfawr o Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru gan Huw P Roberts. Y prif siaradwr yn y cyfarfod diwethaf oedd Jonathan Crawley a drafododd y Rheol 106.

1634 Derbyniwyd Adroddiad Is Bwyllgor y fynwent Bydd Rhybudd yn cael ei roi ar geir sy'n parcio yn gyson ym maes parcio'r fynwent.

Cytunodd Heledd Jones i gynnig cymorth y Cyngor i deuluoedd lle mae llystyfiant yn amharu ar y beddau. Caniateir planhigion mewn potiau ar y garreg, ond ni chaniateir plannu planhigion, na gosod addurniadau sy'n gallu amharu ar y gwaith cynnal a chadw.

Cytunwyd y bydd y Cyngor yn trefnu yn y dyfodol i osod unrhyw garreg sydd ar lawr i orwedd ar y bedd (os oes posib gwneud hyn), neu ei symud i'r ochr. Mae cyfle ar hyn o bryd i deuluoedd fynd ati i ail-godi carreg sydd ar lawr, os mai hynny yw eu dymuniad.

1635 Cwblhawyd trefniadau Noson Goffi'r Cyngor.

1636 Adroddodd Karl Jones iddo gael trafodaeth gyda Dylan Wyn Jones ar y posibilrwydd o osod goleuadau sy'n fflachio tu allan i'r Neuadd. Cytunodd Karl Jones i ofyn am fwy o fanylion.

**1637 Materion Eiddo'r Cyngor**

Cwblhawyd y gwaith o uwchraddio'r llochesi bws. Mae Alan Jones Evans mewn cysylltiad gydag Asiantaeth y Cefnffyrdd ar fater gorlifo o'r cwlfert i loches y Lôn.

**1638 Materion ariannol**

i. Derbyniwyd Adroddiad Yr Archwilwyr Allanol (BDO). Nododd yr aelodau'r mân bwyntiau a godwyd gan yr Archwilwyr.

Mynegodd y Cynghorwyr siom fod swyddogion cyflogedig y Cyngor Cymuned wedi gorfod treulio cymaint o amser ar fanylion wrth ymateb i ymholiadau BDO. Yr oeddent o'r farn nad yw ymateb i fân ymholiadau – yn arbennig ar faterion sydd eisoes yn y dogfennau a anfonwyd – yn werth da o arian trethdalwyr Llanuwchllyn. Nid yw manylder yr hyn a ofynnir amdano yn gymesur â maint y symiau a drafodir.

Cytunwyd i anfon i fynegi anfodlonrwydd y Cyngor ar drefn orfanwl BDO wrth Un Llais Cymru, yr Aelod Cynulliad a Carwyn Jones.

ii  Gwiriwyd y gwariant hyd yn hyn yn erbyn y Gyllideb.  Nodwyd fod gwariant ar y gwaith cynnal a chadw yn uwch na'r hyn a osodwyd yn y Gyllideb, ond cytunwyd ei fod yn waith brys ac angenrheidiol.  Bydd y gronfa wrth gefn yn gallu gwneud yn iawn am y diffyg hwn.

Cytunwyd bod yr Is Bwyllgor Cyllid yn trafod y swm a neilltuwyd yn y Gyllideb ar gyfer Her Gwynedd gan nad ydyw wedi ei wario hyd yn hyn.

iii  Cytunwyd i dalu'r biliau a ddaeth i law.

iv  Derbyniwyd ad-daliad gan Cygnor Tref Y Bala am hanner ffi Cynhadledd SLCC.

v   Cytunwyd i drefnu is-bwyllgor Cyllid cyn diwedd y mis.

**1639  Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned**

**i**  Cytunwyd i dynnu sylw Alan Jones Evans at y goeden beryglus yn ymyl y ffordd yng Nghynllwyd.

ii  Mynegwyd siom am yr adroddiadau yn y Wasg fod cleifion iechyd meddwl Cymraeg eu hiaith a di-Gymraeg yn gorfod mynd i bellafoedd Lloegr i dderbyn triniaeth (ar gost uchel). Cytunwyd i fynegi anfodlonrwydd y Cyngor wrth Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, gan anfon copi at yr Aelod Cynulliad a'r Aelod Seneddol.

**1640  Partneriaeth Penllyn**:

Adroddiad y Cynrychiolwyr: dywedodd Huw Antur ei fod wedi ymweld  â'r 5 Cyngor sy'n aelodau o'r Bartneriaeth.  Ymwelodd yr Ysgrifennydd Cabinet yn Llywodraeth Cymru, Mark Drakeford, â'r Henblas yr wythnos diwethaf i drafod gwaith y Bartneriaeth a'r Cwmni.  Fe gyfeiriodd Mr Drakeford at Bartneriaeth Penllyn yn ei araith allweddol ar ddyfodol Llywodraeth Leol yng Nghynhadledd Un Llais Cymru yn dilyn yr ymweliad ac yn ei araith i'r Cynulliad.

Cytunwyd i wneud y cyfraniad arferol tuag at weithgareddau lles yn yr Henblas, a diolchwyd am yr adnodd hwn sy'n gwasanaethu holl drigolion Penllyn.

Gan fod Alwyn Roberts eisoes yn cynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol O M Edwards, cytunwyd i ofyn i Alwyn E Jones gynrychioli'r Cyngor ar y Bartneriaeth gydag Huw Antur.

**1641  Gohebiaeth:**

**1.  Parc Cenedlaethol Eryri:**

Nodwyd derbyn gwybodaeth fod apêl yn erbyn gwrthod cais "The Toll House, Church Street".

Cymeradwywyd cais cynllunio NP5/71/1D sef adeiladu estyniad deulawr ym Mryncaled.

**2 Gwynedd:**

Biniau halen – rhoddwyd ystyriaeth i ymateb y Cyngh. John Wyn Jones a chytunwyd i ohirio'r drafodaeth hyd nes y gellir derbyn mwy o wybodaeth gan Alan Jones Evans.

**3 Eraill:**

i. Cytunwyd i'r Clerc anfon sylwadau ar ran y Cyngor ar Arolwg 2018 o etholaethau seneddol.

ii. Nodwyd derbyn Arolwg gan y Farwnes Eluned Morgan AC.

iii Nodwyd derbyn cynnig gan dîm o benseiri dan hyfforddiant i gydweithio ar brosiect cymunedol.

iv Rhannwyd gwahoddiad i drafod effaith economaidd datblygiadau yn y stesion ar 13/10/16

*Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 1/11/16 yn y Neuadd Bentref*

*Amser gorffen: 10.30*